Hawdd ei Ddeall

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cronfa Sefydlogi i Unigolion – Cwestiynau Cyffredin

**Canllaw i rai o'r cwestiynau sydd gennych efallai am ein Cronfa Sefydlogi a sut i wneud cais**



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **Cyngor Celfyddydau Cymru: 'COVID-19: Cefnogaeth i Unigolion drwy'r Gronfa Sefydlogi, Cwestiynau Cyffredin'.**

**Ebrill 2020**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi'i ysgrifennu mewn blwch o dan y gair.



Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 33**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:



**E-bost:** grantiau@celf.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma**........2

**Y Gronfa Sefydlogi**........6

Beth ydy'r gronfa a phwy sydd yn gallu ei gael?........6

Am faint rydw i'n gallu gwneud cais?........7

Pryd rydw i'n gallu gwneud cais?........7

**Gwneud cais**........8

Pwy sydd yn gallu gwneud cais?........8

Pwy sydd ddim yn gallu wneud cais?........10

Ydw i'n gallu gwneud cais os ydw i'n gweithio mewn Ffilm?........10

Beth os ydw i'n gweithio mewn siopau, bwyd neu swyddi cefnogi eraill yn y celfyddydau?........11

Am beth rydw i'n gallu gwneud cais?........11

Am beth dydw i ddim yn gallu gwneud cais?........12

**Arian**........13

Ydw i angen cyllid cyfatebol?........13

Os ydw i'n gallu cael arian arall ar gyfer fy mhrosiect fydda i'n fwy tebygol o gael arian o'r Gronfa Sefydlogi?........13

Sut mae'r arian yma yn effeithio ar fy Nghredyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill?........14

Oes angen imi ddweud wrthych chi sut rydw i'n mynd i wario'r arian yma?....14

Sut rydw i'n llenwi'r ffurflen sydd yn dweud sut fydd yr arian yn cael ei wario?....15

Sut ddylwn i lenwi'r adran gwariant o'r templed cyllideb?....16

Sut ddylwn i lenwi'r adran incwm?....16

Sut ydw i'n llenwi'r adran crynodeb?....18

Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu dyled sydd gennym ni ers amser hir?....19

Mae gen i anghenion ychwanegol, ydw i'n gallu cael help gyda'r cais?....19

Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu costau mynediad?....19

Beth ydy costau mynediad?....20

Pa brawf cyfrif banc rydych chi ei angen?....21

**Am y Gronfa Sefydlogi....23**

Faint o arian sydd yn y Gronfa Sefydlogi?....23

O lle mae'r arian yma wedi dod?....24

**Sut fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad....23**

Beth sydd fwyaf pwysig i'r Cyngor Celfyddydau?....25

Oes yna rhywbeth arbennig rydyn ni eisiau ei gefnogi gyda'r arian yma?....26

Pryd fydda i'n cael fy mhenderfyniad?....................................................27

Pryd fydda i'n cael yr arian?......................................................................27

Fydd yna fwy o gyfleoedd i gael arian o'r Gronfa Sefydlogi?................28

Ydw i'n gallu gwneud cais o'r Gronfa Sefydlogi os ydw i wedi cael arian yn barod o'r Gronfa Ymateb Brys?..........................................28

Faint o artistiaid fydd yn cael arian o'r Gronfa Sefydlogi?.....................28

Ydych chi'n mynd i brintio enwau'r bobl sydd yn cael arian?...............29

**Gwybodaeth a chefnogaeth.......................................................................30**

Sut rydw i'n gallu cael cefnogaeth pan rydw i'n cadw pellter cymdeithasol neu yn hunanynysu?.........................................................30

Ydw i'n gallu siarad gyda rhywun sydd yn gweithio i'r CyngorCelfyddydau?.......................................................................................30

**Cyllid Loteri arall........................................................................................31**

Mae gen i Grant Prosiect y Loteri Cenedlaethol. Ydw i'n gallu gwneud cais am yr arian yma hefyd?.......................................................31

Pryd fydd Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol yn dechrau eto?....31

**Newid y Gronfa Sefydlogi...........................................................................32**

Fyddwch chi'n gwneud unrhyw newidiadau i'r Gronfa Sefydlogi?.....32

**Geiriau anodd...............................................................................................33**

# Y Gronfa Sefydlogi

## Beth ydy'r gronfa a phwy sydd yn gallu ei gael?




Arian ydy'r **Gronfa Sefydlogi** i bobl sydd yn:

- gweithio yn **llawrydd** yn y sector celfyddydau

> Mae **Llawrydd** yn meddwl gweithio i c**hi'ch hun neu bod yn hunangyflogedig. Efallai eich bod yn gwneud darnau bach o waith i gyrff** fel gweithiwr **llawrydd**.

- ac yn methu gwneud arian ar hyn o bryd oherwydd Coronafeirws

Mae hyn yn gallu bod yn bobl fel:

- person crefftau
- Awdur, person sydd yn ysgrifennu
- Dawnsiwr
- Cerddor

Mae'r arian ar gael i'w helpu nhw i gadw i weithio drwy coronafeirws.

## Am faint rydw i’n gallu gwneud cais?




Rydych chi’n gallu gwneud cais am rhwng £1000 a £10,000. Efallai y byddwch chi’n gallu cael mwy o arian os oes gennych chi anghenion ychwanegol.

Rhaid defnyddio’r arian yma o fewn 6 mis.

## Pryd rydw i’n gallu gwneud cais?




Mae’r Gronfa Sefydlogi yn agor ar **ddydd Gwener 29 Mai 2020**.




Rhaid i chi anfon eich cais inni erbyn 5pm ar **ddydd Llun 15 Mehefin 2020**.




Efallai y byddwn ni’n cau’r Gronfa Sefydlogi cyn **dydd LLun 15 Mehefin 2020**, os ydyn ni’n cael gormod o geisiadau.

# Gwneud cais

## Pwy sydd yn gallu gwneud cais?

Rydych chi'n gallu gwneud cais i'r **Gronfa Sefydlogi** os ydych chi'n gweithio yn y sector celfyddydau ac os:



- Rydych chi'n cael problemau arian oherwydd Coronafeirws.

- Rydych chi'n ennill o leiaf hanner eich arian o waith llawrydd.



- Mae dros hanner eich gwaith mewn math o ffurf gelfyddydol rydyn ni'n ei gefnogi.

- Rydych chi'n berchen ac yn rhedeg eich busnes eich hun fel unigolyn.



- Rydych chi wedi cael swydd neu wedi bod yn rhan o waith yn y 3 blynedd diwethaf oedd wedi cael ei **gyllido'n gyhoeddus**.

Mae wedi cael ei **gyllido'n gyhoeddus** yn meddwl cael ei dalu g**ydag arian o'r cyhoedd. Mae'n gallu cael ei drefnu gan rhywun fel** Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol.



- Rydych chi’n 18 oed neu drosodd.
- Rydych chi’n byw yng Nghymru.
- Mae gennych chi gyfrif banc yn y DU yn eich enw chi.



Mae 1 person yn gallu gwneud cais am arian ar gyfer grŵp o bobl sydd yn gweithio gyda’i gilydd.

Dim ond unwaith y dylech chi wneud cais. Ddylech chi ddim gwneud cais fel unigolyn os ydych chi’n rhan o grŵp sydd hefyd yn gwneud cais.

## Pwy sydd ddim yn gallu wneud cais?



Dydych chi ddim yn gallu gwneud cais os:

- Dydych chi ddim yn gweithio'n llawrydd yn y celfyddydau **di-elw**. Mae **di-elw** yn meddwl gwaith sydd yn cael ei wneud er lles pobl. Dim yn unig i wneud arian.
- Rydych chi'n ennill y rhan fwyaf o'ch arian o waith sydd **ddim** yn Llawrydd.
- Rydych chi yn gorff.
- Dydych chi ddim yn gweithio yng Nghymru.
- Myfyrwyr. Rydych chi'n dal yn yr ysgol neu yn astudio'n llawn amser.
- Rydych chi'n gweithio mewn addysg.
- Rydych chi dan 18 oed.



## Ydw i'n gallu gwneud cais os ydw i'n gweithio mewn Ffilm?



Dydyn ni ddim yn cefnogi gwaith mewn Ffilm. Ond fe fyddwn ni'n cefnogi artistiaid sydd efallai yn gweithio mewn rhai rhannau o wneud ffilmiau. Er enghraifft celfyddydau digidol ac ysgrifennu.

## Beth os ydw i'n gweithio mewn siopau, bwyd neu swyddi cefnogi eraill yn y celfyddydau?

Edrychwch i weld cynlluniau eraill Llywodraeth y DU sydd yn gallu eich helpu.

## Am beth rydw i'n gallu gwneud cais?

Rydych chi'n gallu gwneud cais am arian i dalu am:




- Cyfleoedd i dyfu neu i newid eich gwaith celf, neu i gadw eich gwaith i fynd.
- Pethau fel offer rydych chi ei angen i barhau i wneud eich gwaith celf.
- Prosiectau gydag artistiaid eraill a phrosiectau sydd yn eich helpu i greu gwaith celf newydd.
- Cyfleoedd i gymryd risgiau yn eich gwaith celf a darganfod ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol.

## Am beth dydw i ddim yn gallu gwneud cais?



Dydy'r arian yma ddim yn gallu cael ei ddefnyddio i:

- Gwaith sydd â dim i'w wneud gyda chelfyddyd.
- Gwaith sydd wedi digwydd yn barod. Neu fydd wedi dechrau cyn inni wneud penderfyniad am eich cais.



- Gwaith mewn ysgolion. Yn cynnwys gweithareddau ar-lein i ddisgyblion. Fe fydd gennym ni gronfa arall i gefnogi'r math yma o waith.
- Ffioedd hyfforddi myfyrwyr a chostau astudio eraill.
- Dim ond i brynu offer newydd.




- **Hunangyhoeddi**. Mae hyn yn meddwl talu i wneud eich gwaith ar gael i'r cyhoedd gyda'ch arian eich hun.
- Digwyddiadau neu weithgareddau i helpu i godi arian.



- Prosiectau ffilm.
- Gwaith sydd yn methu digwydd nawr oherwydd rheolau coronafeirws am aros adref.
- Pobl sydd ddim yn gwneud o leiaf hanner eu gwaith yn llawrydd.

# Arian



## Ydw i angen cyllid cyfatebol?

Nac ydych.

## Os ydw i'n gallu cael arian arall ar gyfer fy mhrosiect fydda i'n fwy tebygol o gael arian o'r Gronfa Sefydlogi?

Dydych chi ddim angen arian arall. Rydych chi'n gallu gofyn am faint rydych chi ei angen hyd at £10,000.



Ond does gennym ni ddim digon o arian i bawb. Ac rydyn ni eisiau cefnogi cymaint o gyrff â phosibl.

Fe fydd pobl sydd yn gwneud cais am symiau llai o arian yn ddewisiadau da inni.

## Sut mae'r arian yma yn effeithio ar fy Nghredyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill?



Dydyn ni ddim yn gwybod a dydyn ni ddim yn gallu rhoi cyngor i chi am hyn. Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda **Refeniw a Thollau EM** am gyngor:

**Gwefan:** www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs

**Ffôn:** 0800 024 1222

## Oes angen imi ddweud wrthych chi sut rydw i'n mynd i wario'r arian yma?



Oes. Mae angen i chi lenwi ffurflen fel rhan o'ch cais.

## Sut rydw i’n llenwi’r ffurflen sydd yn dweud sut fydd yr arian yn cael ei wario?



Os ydych chi’n gwneud cais am arian ar gyfer prosiect rhaid i chi roi cyllideb prosiect gyda’ch cais.

Rhaid i chi ddefnyddio’r **templed cyllideb** sydd yn y cais.

Dydych chi ddim yn gallu newid hyn ar ôl i chi anfon eich cais inni. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi’r holl gostau i lawr.

Dyma’r tudalennau sydd yn rhaid i chi eu llenwi:

- **Crynodeb–** rhowch enw eich corff ac enw’r prosiect. Fe fydd y ffurflen yn gweithio allan y costau wrth i chi roi’r wybodaeth.



- **Gwariant –** dyma lle rydych chi’n dweud pa gostau mae’n rhaid i chi eu talu i wneud y prosiect.
- **Incwm–** dweud wrthyn ni pa arian fyddwch chi’n ei gael oherwydd eich prosiect.
- **Costau mynediad –** costau sydd gennych chi neu rhywun sydd yn gweithio ar y prosiect oherwydd anghenion ychwanegol.

## Sut ddylwn i lenwi'r adran gwariant o'r templed cyllideb?




Dangoswch inni sut rydych chi wedi gweithio popeth allan. Fe ddylech chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl am beth fydd y costau

Dim ond costau sydd yn deg ac yn rhesymol am y gwaith rydych chi'n ei wneud y dylech chi eu rhoi.

## Sut ddylwn i lenwi'r adran incwm?

Dangoswch inni sut rydych chi wedi gweithio popeth allan os gwelwch yn dda.

Mae **5 adran** i'w llenwi:



1. **Cais grant i Gyngor Celfyddydau Cymru**
   Ysgrifennwch faint o arian rydych chi'n ofyn amdano gennym ni.

2. **Eich arian chi**

   Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda faint o'ch arian eich hun fyddwch chi'n ei wario ar y prosiect.



### 3. Incwm wedi'i ennill

Dywedwch wrthyn ni am yr arian fyddwch chi'n ei wneud o'ch prosiect.

### 4. Arian arall

Os oes gennych chi arian arall ar gyfer y prosiect yma, mae hyn yn dangos inni fod ganddo lawer o gefnogaeth. Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda faint o arian rydych chi'n obeithio ei gael o leoedd eraill.



### 5. Cefnogaeth mewn modd

Mae hyn yn gallu bod yn amser gwirfoddoli neu fenthyg offer gan eraill. Neu disgownt.

## Sut ydw i'n llenwi'r adran crynodeb?




Fe fydd y dudalen yma yn gweithio allan yr holl arian fyddwch chi'n ei wario.  A'r holl arian fyddwch chi'n ei gael i mewn.

Fe ddylai hyn fod yn £0. Felly mewn geiriau eraill, fe ddylech chi wario'r holl arian rydych chi'n ei gael.

Fe fydd yn dangos inni faint o arian rydych chi'n ofyn amdano gennym ni. Rhaid i hyn fod o fewn ein rheolau ni.




Os oes gennych gostau oherwydd anghenion ychwanegol fe fydd hyn hefyd yn cael ei ddangos. Fe ddylech chi ychwanegu'r costau yma at yr holl arian rydych chi'n gofyn amdano. Fe ddylech chi ysgrifennu hyn o dan y Swm y gwneir cais amdano.



## Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu dyled sydd gennym ni ers amser hir?

Na. Mae'r arian yma ar gyfer eich helpu i ddod drwy coronafeirws yn unig



## Mae gen i anghenion ychwanegol, ydw i'n gallu cael help gyda'r cais?

Ydych. Cysylltwch gyda'n **tîm grantiau a gwybodaeth** yn grantiau@celf.cymru.




## Ydy'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu costau mynediad?

Ydy. Rydyn ni'n gallu eich helpu i dalu am bethau rydych chi eu hangen oherwydd anabledd. Neu anghenion ychwanegol. Rydych chi'n gallu wneud cais am hyd at £2000 ychwangol.

Mae'r arian yma ar wahân i'r swm rydych chi'n gwneud cais amdano i wneud y gwaith.

# Beth ydy costau mynediad?



Costau mynediad ydy pethau fel

- Cefnogaeth gofal personol yn y cartref

- Help gyda thrafnidiaeth

- **Eiriolydd** – person sydd yn gallu siarad ar eich rhan a'ch helpu i gael dweud eich dweud.



- Cefnogaeth cyfathrebu fel dehonglydd Iaith Arwyddion Prydeinig, meddalwedd arbennig i'ch cyfrifiadur neu wybodaeth hawdd ei ddeall.

# Pa brawf cyfrif banc rydych chi ei angen?




Rydyn ni angen prawf sydd yn dangos:

- bod y cyfrif yn eich enw chi
- rhif a chod didoli'r cyfrif
- bod cyfeiriad ar eich cyfrif banc yng Nghymru




Mae angen i'r prawf fod yn:


- llai na 2 flynedd oed
- rhywbeth swyddogol gan y banc. Er enghraifft llun o'ch cerdyn banc sydd yn dangos enw, rhif a chod didoli'r cyfrif. Neu lythyr neu e-bost gan eich banc.



Efallai bydd angen i chi roi ychydig o ddogfennau gwahanol inni fel prawf.

Os rydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi fe fyddwn ni'n gofyn i chi am ragor o wybodaeth am eich cyfrif.

Dydyn ni ddim yn gallu rhoi unrhyw arian i chi tan ein bod wedi edrych ar yr wybodaeth yma.



Dydyn ni ddim yn gallu talu arian i mewn i:

- cyfrif cymdeithas adeiladu gyda dim ond paslyfr.
- Cyfrif ar y cyd.

# Am y Gronfa Sefydlogi



## Faint o arian sydd yn y Gronfa Sefydlogi?

Rydyn ni'n anelu i wario tua £5½ miliwn ar y Gronfa Sefydlogi i unigolion. Dyma'r **Gronfa Sefydlogi** a hefyd y **Gronfa Ymateb Brys**.

Dydyn ni ddim wedi penderfynu faint o'r arian yma fyddwn ni'n ei roi i bobl sydd yn gwneud cais i'r Gronfa Sefydlogi. A faint fyddwn ni'n ei roi i bobl sydd yn gwneud cais i'r **Gronfa Ymateb Brys**.

Fe fyddwn ni'n gweld faint o geisiadau rydyn ni'n gael a cheisio ateb anghenion pobl mor dda ag rydyn ni'n gallu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# O lle mae'r arian yma wedi dod?

Rydyn ni'n defnyddio rhywfaint o'r arian rydyn ni wedi ei gael gan y llywodraeth ar gyfer ein gwaith.

Ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhywfaint o arian ychwanegol inni.

Fe fyddwn ni'n stopio ein **rhaglenni Loteri cais agored-i-bawb** am 6 mis.




Yn lle hynny fe fyddwn ni'n defnyddio'r arian yma ar gyfer ein cronfeydd i gefnogi pobl a cyrff drwy coronafeirws.

Fe fyddwn ni'n edrych ar y cynllun yma eto yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Fe fyddwn ni'n dweud wrthych chi pryd mae'r **rhaglenni Loteri cais agored-i-bawb** yn dechrau eto.



Os nad ydych chi yn gallu defnyddio arian Loteri am rhyw reswm ysgrifennwch lythyr inni yn dweud pam. Uwchlwythwch y llythyr yma gyda'ch cais os gwelwch yn dda.

Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi o'r **Gronfa Sefydlogi** fe fyddwn ni'n ceisio rhoi arian i chi o leoedd gwahanol.

# Sut fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad

## Beth sydd fwyaf pwysig i'r Cyngor Celfyddydau?

Rydyn ni eisiau defnyddio'r arian yma i helpu 2 beth pwysig:



1. Cefnogi pobl i ddal ati i wneud gwaith da, A gwneud yn siŵr bod nhw'n gallu dal i fynd ar ôl Coronafeirws.

2. Cael mwy o bobl o wahanol gefndiroedd, gwahanol leoedd a gwahanol alluoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau.

# Oes yna rhywbeth arbennig rydyn ni eisiau ei gefnogi gyda'r arian yma?

Nac oes. Fe fyddwn ni'n meddwl am y pethau yma wrth wneud ein penderfyniad:



- Pa mor ddifrifol ydy eich problemau arian. Mae angen i chi ddweud wrthyn ni am hyn yn eich cais. Fe ddylech chi ddangos inni sut mae'r arian yma yn mynd i allu eich helpu i weithio yn wahanol yn yr amser yma.




- Pa mor bwysig ydy eich gwaith. Mae hyn yn gallu bod oherwydd ei fod yn gelf mawr. Neu mae'n cefnogi pobl i fod yn greadigol.

- Pa mor dda mae eich gwaith yn ein helpu i ateb ein prif nodau.

- Sut mae eich gwaith o fudd i eraill, nawr ac yn y dyfodol.


- Pa mor dda ydy eich cynlluniau ar gyfer rheoli a gwneud y gwaith neu'r prosiect. Mae hyn yn meddwl eich cynlluniau ar gyfer sut fyddwch chi'n rheoli yr arian

- Pa brosiectau eraill rydyn ni yn eu cefnogi. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni’n cefnogi gwaith ar draws Cymru. Ym mhob gwahanol ffurfiau o gelfyddyd.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi pob mathau gwahanol o artistiaid

Rydyn ni eisiau cael ceisiadau gan bobl sydd yn **Ddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig**. A phobl sydd yn fyddar neu yn anabl.




## Pryd fydda i’n cael fy mhenderfyniad?

Fe fyddwn ni’n ceisio gwneud ein penderfyniad o fewn 4 wythnos i’r dyddiad cau. Fe fyddwn ni’n dweud wrthych chi os fydd hyn yn hirach am rhyw reswm.



## Pryd fydda i’n cael yr arian?

Os ydyn ni’n penderfynu cefnogi eich prosiect fe fyddwn ni’n anfon ffurflen i chi. Ar ôl inni gael hon yn ôl ac ar ôl inni edrych ar eich manylion banc fe fyddwn ni’n anfon yr arian i chi.

Fel rheol fe fyddwn ni’n talu 90% o’r arian i ddechrau. Fe fyddwn ni’n talu’r gweddill ar ddiwedd eich prosiect. Fe fydd angen i chi ysgrifennu adroddiad.



## Fydd yna fwy o gyfleoedd i gael arian o'r Gronfa Sefydlogi?

Dim ond 1 cyfle sydd ar hyn o bryd. Fe fyddwn yn dal i edrych ar hyn. Os ydy coronafeirws yn para am amser hir, efallai bydd angen inni gynnig yr arian yma eto.



## Ydw i'n gallu gwneud cais o'r Gronfa Sefydlogi os ydw i wedi cael arian yn barod o'r Gronfa Ymateb Brys?

Ydych.



## Faint o artistiaid fydd yn cael arian o'r Gronfa Sefydlogi?

Dydyn ni ddim yn gwybod. Rydyn ni eisiau cefnogi cymaint o geisiadau da ag rydyn ni'n gallu. Ond dydyn ni ddim yn gwybod faint o bobl fydd yn gwneud cais.

Yn aml rydyn ni'n cael mwy o geisiadau na rydyn ni'n gallu eu cefnogi. Felly mae'n debygol na fydd rhai ceisiadau diddorol yn cael arian.

## Ydych chi'n mynd i brintio enwau'r bobl sydd yn cael arian?



Ydyn. Mae hwn yn arian cyhoeddus. Felly mae'n rhaid inni brintio enwau a rhywfaint o wybodaeth am y bobl sydd wedi cael arian.

# Gwybodaeth a chefnogaeth

## Sut rydw i’n gallu cael cefnogaeth pan rydw i’n cadw pellter cymdeithasol neu yn hunanynysu?



Oherwydd rheolau Llywodraeth Cymru dydyn ni ddim yn gallu rhoi cefnogaeth wyneb yn wyneb i chi.

Fe fyddwn ni’n cefnogi gweithwyr gofal ac aelodau teulu drwy’r **Gronfa Cefnogaeth Mynediad**.



Y peth gorau i’w wneud ydy cysylltu gyda ni yn: grantiau@celf.cymru.

## Ydw i’n gallu siarad gyda rhywun sydd yn gweithio i’r Cyngor Celfyddydau?

Dydy ein staff ddim yn gallu rhoi cyngor un I un i chi am sut i ysgrifennu eich cais.



Rydyn ni wedi gwneud pethau mor hawdd â phosibl i wneud cais. Os oes gennych chi anghenion ychwanegol ac os ydych chi angen cefnogaeth rydych chi’n gallu cysylltu gyda ni yn grantiau@celf.cymru.

# Cyllid Loteri arall

## Mae gen i Grant Prosiect y Loteri Cenedlaethol. Ydw i'n gallu gwneud cais am yr arian yma hefyd?



Fe ddylen ni fod wedi cysylltu gyda chi erbyn hyn am beth i'w wneud nesaf.

Os ydych chi'n cael arian gennym ni yn barod, rydych chi'n dal i allu gwneud cais i'r **Gronfa Sefydlogi**. Ond meddyliwch yn ofalus am y rheolau ar gyfer gwneud cais i'r gronfa yma a beth rydych chi ei angen ar yr amser yma.

A dywedwch wrthyn ni pam nad ydy'r arian rydych chi'n ei gael gennym ni yn barod yn ddigon i'ch cefnogi ar yr amser yma.

## Pryd fydd Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol yn dechrau eto?




Dydyn ni ddim yn gwybod eto. Mae'n debyg y bydd ein **rhaglenni cais agored-i-bawb** ar gau tan o gwmpas **Medi 2020**.

Rydyn ni'n gwybod bod **Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol** yn rhan pwysig o **gynllunio i bobl a grwpiau**.

Fe fyddwn ni'n gwneud ein gorau i ddechrau **Grantiau Prosiect y Loteri Cenedlaethol** mor fuan â phosibl.

# Newid y Gronfa Sefydlogi

## Fyddwch chi'n gwneud unrhyw newidiadau i'r Gronfa Sefydlogi?



Rydyn ni wedi creu'r **Gronfa Sefydlogi** yn gyflym iawn. Oherwydd hynny fe fyddwn yn edrych i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y peth gorau.

Os oes angen inni wneud unrhyw newidiadau fe fyddwn ni'n dweud wrthych chi mor fuan ag rydyn ni'n gallu.

# Geiriau anodd

## Llawrydd

Mae llawrydd yn meddwl gweithio i chi eich hun neu yn hunangyflogedig. Efallai eich bod yn gwneud darnau bach o waith i gyrff fel gweithiwr llawrydd.

## Cyllido'n gyhoeddus

Mae cyllido'n gyhoeddus yn meddwl cael eich talu gan arian gan y cyhoedd. Mae'n gallu cael ei drefnu gan gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol.